Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

# INFORMATION SHARING POLICY

**YOUR INFORMATION IS IMPORTANT AND HOW WE LOOK AFTER IT IS TOO!**

**This leaflet explains how the National Adoption Service uses the personal data we collect from you when you contact any of our regional services, voluntary adoption agencies or the central team.**

## Your data and what we do with it

When you make contact with the National Adoption Service (NAS), we will generally ask you for your full name, telephone number and contact details (email address, home address or both). You will also directly supply information when you submit a form for making an enquiry or using/viewing our website via your browser's cookies.

The NAS is a collaborative organisation made up of local authorities through five regional adoption services and three Voluntary Adoption Agencies (VAAs) plus a central team that leads and co-ordinates the work. As such we work together and share information where that is necessary to provide you with a good service. This does not happen often, but information linked to the below may be shared from where there is a need in order to assist with:

- Enquiries
- Dissatisfaction or complaints
- Performance reports
- Marketing
- Other service queries and advice

In doing this, the NAS understands the importance of respecting your confidentiality and rights around data protection. Personal information will only be shared where it is necessary and in line with our service and legal obligations. The service works within the Welsh Government Standards in respect of information sharing. More information on this is available here: WASPI Home – Welsh Accord on Sharing of Personal Information (gov.wales)

The National Adoption Service may also from time to time send you information we think you will find useful. If you have agreed to receive marketing, you may always opt out at a later date. You have the right at any time to stop the National Adoption Service from contacting you for marketing purposes or giving your data to our partners.

## Privacy Policy

National Adoption Service keeps its privacy policy under regular review and places any updates on this web page. The policy can be viewed via the following link: National Adoption Service – Privacy Policy (adoptcymru.com)

## How to contact us

If you have any questions about National Adoption Service's privacy or information sharing policy, please do not hesitate to contact us.

contact@adoptcymru.com

029 2087 3927

**adoptcymru.com**

If you would like information on the data the service holds on you, or you would like to exercise one of your data protection rights, please contact your agency in the first instance, or, if you are not currently receiving services, the part of the National Adoption Service you last had contact with.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service



# POLISI RHANNU GWYBODAETH

**MAE EICH GWYBODAETH A'R FFORDD YR YDYM YN GOFALU AMDANI'N BWYSIG!**

**Mae'r daflen hon yn esbonio sut mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn defnyddio'r data personol yr ydym yn casglu gennych neu pan fyddwch yn cysylltu ag unrhyw un o'n gwasanaethau rhanbarthol, asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol neu'r tîm canolog.**

## Eich data a'r hyn rydym yn ei wneud gydag e

Pan fyddwch yn cysylltu â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC), byddwn fel arfer yn gofyn am eich enw llawn, rhif ffôn a manylion cyswllt (cyfeiriad e-bost, cyfeiriad cartref neu'r ddau). Byddwch hefyd yn rhoi gwybodaeth yn uniongyrchol pan fyddwch yn cyflwyno ffurflen ar gyfer gwneud ymholiad neu ddefnyddio/ edrych ar ein gwefan trwy gwcis eich porwr.

Sefydliad cydweithredol yw'r GMC sy'n cynnwys awdurdodau lleol trwy bum gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol a thair Asiantaeth Mabwysiadu Wirfoddol (AMG) a thîm canolog sy'n arwain ac yn cydlynu'r gwaith. Felly, rydym yn gweithio gyda'n gilydd ac yn rhannu gwybodaeth ble mae hynny'n angenrheidiol i roi gwasanaeth da i chi. Nid yw hyn yn digwydd yn aml, ond gall gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r isod gael ei rhannu ble mae angen er mwyn cynorthwyo gyda:

- Ymholiadau
- Anfodlonrwydd neu gwynion
- Adroddiadau perfformiad
- Marchnata
- Ymholiadau eraill am y gwasanaeth a chyngor

Wrth wneud hyn, mae'r GMC yn deall pwysigrwydd parchu'ch cyfrinachedd a'ch hawliau o gylch diogelu data. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu dim ond ble mae hynny'n angenrheidiol ac yn unol â'n rhwymedigaethau gwasanaeth a chyfreithiol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio o fewn Safonau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhannu gwybodaeth. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yma: Hafan – Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (llyw.cymru)

O bryd i'w gilydd efallai bydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn danfon gwybodaeth atoch chi yr ydym yn credu y byddwch yn ei chael yn ddefnyddiol. Os ydych chi wedi cytuno i dderbyn deunydd marchnata, gallwch ddewis peidio ar unrhyw adeg. Mae gennych hawl ar unrhyw adeg i stopio'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol rhag cysylltu â chi at ddibenion marchnata neu roi eich data i'n partneriaid.

## Polisi Preifatrwydd

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn adolygu ei bolisi preifatrwydd yn rheolaidd ac yn gosod unrhyw ddiweddariadau ar y dudalen hon. Gellir gweld y polisi trwy'r ddolen ganlynol: National Adoption Service – Privacy Policy (adoptcymru.com)

## Sut i gysylltu â ni

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau am bolisi preifatrwydd neu rannu gwybodaeth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, cysylltwch â ni ar bob cyfrif.

contact@adoptcymru.com

029 2087 3927

**adoptcymru.com**

Os hoffech chi wybodaeth am y data mae'r gwasanaeth yn ei gadw amdanoch chi, neu os hoffech chi arfer un o'ch hawliau diogelu data, cysylltwch â'ch asiantaeth yn gyntaf, neu, os nad ydych chi'n derbyn gwasanaethau ar hyn o bryd, y rhan honno o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol y buoch yn cysylltu â nhw ddiwethaf.